## Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 12fed o Orffennaf 2018 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Arwel Jones (Cadeirydd), y Cynghorwyr Nigel Davies, Robert Davies, Dai Evans, Helen Evans, John Lumley, Gwyndaf Morgan, Alwen Thomas ac Iwan Thomas.
Y Cynghorydd Sir Marc Davies.
Denfer Morgan (Clerc).

**148 Ymddiheuriadau a Materion Personol**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Ray Williams am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

**149 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar y 7fed o Fehefon 2018 yn amodol newid y cyfeiriad at y Cynghorydd Marc Williams yng nghofnod 147c) i'r Cynghorydd Marc Davies.

**150 Materion yn Codi o'r Cofnodion**

a) Cofnod 137 – ni chlywyd dim byd pellach oddi wrth y Banc a phenderfynwyd dechrau defnyddio'r llofnodwyr newydd.

b) Cofnod 147 a) – gofynwyd i'r Clerc atgoffa'r Cyngor Sir am gais y Cyngor am archwiliad o 'Bont Tegfan'.

**151 Materion Cyllidol**

**PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

a) talu'r canlynol:

| | |
|---|---|
| *Cyflog y Clerc (Ebr-Mai-Meh):* | |
| Mr Denfer Morgan | £279.50 |
| CThEM (TWE) | £69.88 |
| Mr Gwyn Jones (Archwilydd Mewnol) | £50 |
| Zurich Municipal (Yswiriant Blynyddol) | £415.41 |

b) cymeradwyo Cyfrifon Blynyddol 2017-18 fel a archwiliwyd gan yr Archwilliwr Mewnol ac eu bod yn cael eu llofnodi a'u hanfon i Swyddfa Archwilio Cymru.

c) cytuno i gyfrannu at gost prynu 10fed Cyfrol Llyfr Charles Arnold Baker at ddefnydd y Clerc yn y swm o £12.

**152 Arosfeydd bysus Crossways**

Dywedodd y Clerc fod y ddau bostyn wedi'u codi a'i fod yn aros am yr anfoneb oddi wrth Adran Priffyrdd y Cyngor Sir. Fe fyddai angen i'r Cyngor talu'r anfoneb cyn hawlio'r grant cymunedol oddi wrth y Cyngor Sir.

**153 Ymgynghori ynghylch Safleoedd Posib Cynllun Datblygu Lleol Newydd Ceredigion**

Nodwyd fod y Cyngor Sir yn dechrau ar y broses o adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a fod yna wahoddiad i berchnogion tir wneud cais i gynnwys tir o fewn y ffiniau presennol.

**154 Ymgynghoriad Safle Gwastraff Cartref Rhydeinon**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r ymgynhoriad a **PHENDERFYNWYD** rhoi gwybod i'r Cyngor Sir fod y Cyngor yn cefnogi Opsiwn 3, sef cadw'r safle ar agor gan barhau gyda'r oriau agor presennol, ac i nodi pryder nad oedd y tri cwestiwn dilynol yn berthnasol i'r Opsiwn hwn.

**155 Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chynhadledd Un Llais Cymru**

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorwyr John Lumley a Gwyndaf Morgan i fynd i Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chynhadledd Un Llais Cymru ar Faes y Sioe Frenhinol ar ddydd Sadwrn 29ain o Fedi 2018.

**156 Unrhyw Fater Cymwys Arall**

a) Nodwyd mai'r penderfyniad oedd lleoli Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 yn Nhregaron a chytunwyd ysgrifennu at y Cyngor Tref i'w llongyfarch.
b) Cyfeiriodd y Cynghorydd Gwyndaf Morgan at flerwch y contractwyr ar ran y Cyngor Sir wrth dorri cloddiau yn yr ardal yn ddiweddar.
c) Dywedodd y Cynghorydd Alwen Thomas fod yna arwydd yn dynodi troeon wedi diflannu o'r heol yn arwain at Gapel Ciliau Aeron a chytunwyd cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynghylch y mater.
d) Dywedodd y Cynghorydd sir Marc Davies fod y Cyngor Sir yn trefnu codi arwydd 'Ciliau Aeron' newydd.
e) Dywedodd y Cynghorydd Helen Evans fod yna foncyff ar yr A482 ger dro Pontfaen a oedd yn creu perygl. Hefyd taw'r coesau'r arwydd 'Idiwch' ger fynedfa Llanerchaeron oedd wedi rhydu.

f) Dywedodd y Cynghorydd Sir Marc Davies fod yna adroddiad yn cael ei baratoi gan yr Heddlu yn dilyn y ddamwain ar yr A482 ac y gellir ei drafod unwaith y byddai wedi'i gyhoeddi.
g) Dywedodd y Cynghorydd John Lumley ei fod yn deall y byddai'r adolygiad o Ysgol Cilcennin gan y Cyngor Sir yn dechrau cyn bo hir a bod yna eisoes paratoadau ar y gweill gan y Corff Llywodraethol i wrthwynebu unrhyw benderfyniad i'w gau. Cytunwyd I gadw golwg ar y sefyllfa.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.00 pm